Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 02 Hydref 2024 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2024/25**<br><br>**Adolygiad hyd at ddiwedd Awst 2024** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Awst 2024 ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld tanwariant net o (£4,468) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**
**Gorwariant £45,857**
Fe sefydlwyd cyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn seiliedig ar nifer y staff yn Chwefror 2024. Mae arbediad wedi ei wireddu wedi i rai o aelodau staff GwE adael eu swyddi, gyda’r rhan fwyaf o’r ymadawiadau hyn yn digwydd yn unol â’r flwyddyn academaidd. Mae’r adroddiad yma hefyd wedi ymgorffori penderfyniad y Cydbwyllgor ar 1af Awst 2024, gan gynnwys yr ailstrwythuro arfaethedig o’r Uwch Dîm Reoli.

2.2 **Rhent:**
**Gorwariant £10,116**
Yn unol â’r tueddiad hanesyddol, rhagwelwn y bydd GwE yn gorwario ar y pennawd yma eleni. Mae hyn yn bennaf yn ganlyniad i GwE yn rhentu gofod mwy o faint yn swyddfa Caernarfon.

2.3 **Cludiant:**
**Tanwariant (£40,839)**
Yn hanesyddol, mae’r pennawd yma wedi bod yn tanwario, ac yn seiliedig ar dueddiad Ebrill i Awst eleni, rydym yn rhagweld sefyllfa o danwariant yn parhau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffyrdd newydd o weithio rhithiol a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £221,310.

3.2 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gronfa yn £225,778 ar ddiwedd 2024/25, yn dilyn cyfraniad y tanwariant a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2024/25 – Adolygiad hyd at ddiwedd Awst 2024.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad